Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd, 12 Mehefin 2020 – Cyfarfod dros TEAMS**

**Yn bresennol:**

Shan Morgan
Meena Upadhyaya
Ellen Donovan
Jeff Farrar
Gareth Lynn
Andrew Goodall
Tracey Burke
Andrew Slade
Des Clifford
Peter Kennedy
Natalie Pearson
Gawain Evans
David Richards
Andrew Jeffreys
Helen Lentle
Charlie Thomas

**Ysgrifenyddiaeth:**
Charmain Watts

**Ymddiheuriadau:**
Dim

1. **Croeso**

**1.1** Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod Bwrdd Llywodraeth Cymru a chroesawodd Meena Upadhyaya i'w chyfarfod cyntaf fel Cyfarwyddwr Anweithredol.

**1.2** Tynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol sylw pawb at y papurau yn ymwneud â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a gofynnodd i bawb roi eu sylwadau adborth i'r ysgrifenyddiaeth.

2. **Materion Presennol/COVID-19**

**2.1** Rhoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol ddiweddariad ynghylch arferion gweithio presennol a dywedodd bod y mwyafrif o'r staff yn gweithio'n llwyddiannus o bell diolch i'n hoffer TG rhagorol. Dywedodd hefyd fod y meysydd allweddol yr oedd yn eu monitro yn cynnwys: adnoddau, llywodraethiant, cadernid staff ac arferion gwneud penderfyniadau.

**2.2** Rhoddodd Andrew Goodall ddiweddariad i'r Bwrdd ar y datblygiadau diweddaraf yn ymwneud â COVID-19 a'r sefyllfa bresennol yng Nghymru. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol:

- Trosglwyddiad y feirws yng Nghymru,
- Gofal critigol,
- Y gyfradd farwolaethau yng Nghymru,
- Profi, Olrhain a Diogelu,
- Cyfarpar diogelu personol.

**2.3** Trafododd y Bwrdd ymhellach y posibilrwydd o ail don o achosion yn y gaeaf a'r cynlluniau i reoli hyn ochr yn ochr â phwysau eraill ar y GIG yn ystod y gaeaf. Rhoddodd Andrew yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y Fframwaith ar gyfer Adferiad a phwysigrwydd rhoi sicrwydd i bobl ynglŷn â pha wasanaethau y gall pobl eu defnyddio yn y GIG.

**2.4** Gofynnodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol sut y mae'r sefydliad yn cydbwyso gofynion COVID-19, Brexit a chyflawni'r Rhaglen Lywodraethu, gan amlinellu eu pryderon am gadernid a llesiant staff. Trafododd y Bwrdd waith yr adolygiad sylfaenol a'r gwaith a gyflawnwyd i ddeall adnoddau'r sefydliad.

**2.5** Cynigiodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol gymorth ychwanegol gydag unrhyw beth yr oedd Llywodraeth Cymru angen sicrwydd amdano. Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol hyn a byddai'n rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol sut y gallent helpu.

**CAM GWEITHREDU 1:** Pawb i ystyried pa gymorth ychwanegol y gallai'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ei roi i'r sefydliad.

## 3. Diweddariadau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol

**3.1** Rhoddodd y Cyfarwyddwyr Cyffredinol ddiweddariad ar feysydd gwaith allweddol yn eu meysydd. Trafododd Tracey Burke Addysg a'r Sector Cyhoeddus, rhoddodd Andrew Slade ddiweddariad ar yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, a rhoddodd Des Clifford ddiweddariad ar Swyddfa'r Prif Weinidog.

- Canolbwyntiodd diweddariad Des ar y gwaith yn ymwneud â'r cylch adolygu 21 diwrnod a'r gofynion cyfreithiol, y cynlluniau arfaethedig ar gyfer y diwydiant twristiaeth a'r datblygiadau diweddaraf yn ymwneud â Brexit.

- Canolbwyntiodd diweddariad Tracey ar waith yn ymwneud â’r Ganolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru), ysgolion, digartrefedd, gofal plant ac Awdurdodau Lleol. Tynnodd sylw hefyd at y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol.

- Canolbwyntiodd diweddariad Andrew ar sut y byddwn yn symud o'r cyfnod argyfwng i’r 'normal’ newydd, ailddechrau'r diwydiant trafnidiaeth, ein hymateb economaidd, Brexit o fewn Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, a gwaith â blaenoriaeth arall yn ymwneud â’r Rhaglen Lywodraethu y mae'n rhaid ei chyflawni ochr yn ochr â COVID-19 a Brexit.

**3.2** Yn y cynlluniau adfer, tynnodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol sylw at y ffaith bod 'Cyflogaeth a Sgiliau' yn cael lle amlwg mewn perthynas ag effaith a blaenoriaeth ar draws blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Cafwyd trafodaeth wedi hynny am allu a capasiti yn y maes hwn.

**3.3** Cynhaliwyd trafodaethau pellach ynghylch llywodraethiant a'r broses gwneud penderfyniadau yn ymwneud â'r adolygiad 21 diwrnod. Bydd yr

Ysgrifennydd Parhaol yn gofyn i'r ysgrifenyddiaeth ddosbarthu'r strwythur llywodraethiant.

**CAM GWEITHREDU 2:** Dosbarthu'r strwythur llywodraethiant i aelodau'r Bwrdd.

**3.4** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei bod wedi rhoi gwybod i'r holl staff y dylai unrhyw benderfyniadau gael eu cofnodi'n ffurfiol, ynghyd â'r rhagdybiaethau ynghylch y penderfyniadau hynny. Cytunodd y Bwrdd fod hyn yn hanfodol ar gyfer prosesau craffu yn y dyfodol.

**3.5** Cododd y Cyfarwyddwyr Anweithredol rai cwestiynau ynglŷn â'r cynlluniau oedd yn dod i'r amlwg ar gyfer adfer ar ôl COVID-19. Roedd y cwestiynau hynny'n ymwneud â phrosesau a llywodraethiant mewn ymateb i gwestiynau allweddol gan feysydd polisi a chwestiynau ehangach.

## 4. Diweddariad ar Gyllid

**4.1** Siaradodd Gawain Evans am yr adroddiad sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ffigurau alldro dros dro sydd heb eu harchwilio o'u cymharu â dyraniadau cyllideb adrannol a adlewyrchir yn Ail Gyllideb Atodol 2019-20.

**4.2** Dywedodd Gawain fod yr adroddiad hwn yn dilyn y diweddariad mis 11 ar berfformiad ariannol a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Mawrth. Bydd y ffigurau alldro hyn, ynghyd ag unrhyw addasiadau pellach, yn cael eu hadlewyrchu yn nrafft cyntaf cyfrifon 2019-20 a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Ysgrifennydd Parhaol yn ddiweddarach y mis hwn.

**CAM GWEITHREDU 3:** Cytunodd y Bwrdd ei bod yn bwysig cael darlun o holl gyflawniadau Llywodraeth Cymru yn yr Adolygiad Blynyddol o'r cyfrifon.

**4.3** Rhoddodd Andrew Jeffreys ddiweddariad a oedd yn canolbwyntio ar y gyllideb atodol gyhoeddedig, unrhyw orwariant posibl a risgiau ariannol.

**4.4** Dywedodd Andrew hefyd fod cyfarfod yn cael ei gynnal gyda'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd i ystyried pwysau yn sgil COVID-19 yn y flwyddyn i ddod. Nododd y Bwrdd bwysigrwydd y drafodaeth hon a chytunodd y dylid neilltuo rhagor o amser i drafod ymhellach yn ystod cyfarfod nesaf y Bwrdd.

**CAM GWEITHREDU 4:** Neilltuo rhagor o amser i drafod materion ariannol yn ystod cyfarfod nesaf y Bwrdd.

## 5. Diweddariad ar Gyfathrebu

**5.1** Rhoddodd Natalie Pearson yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfathrebu mewnol. Cyflwynodd ddangosfwrdd un dudalen ar yr ystadegau diweddaraf ar gyfer newyddion, y Lab Dysgu a nifer y trawiadau ar y fewnrwyd.

**5.2** Dywedodd Natalie fod gwaith ei Hadran hi yn canolbwyntio ar gyflenwi adnoddau a’r galw amdanynt, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am yr holl ddatblygiadau yn y sefydliad a helpu staff i weithio o bell.

**5.3** Dywedodd Natalie hefyd fod offeryn asesu risg 121 yn cael ei ddatblygu i asesu staff sy'n dychwelyd i swyddfeydd. Bydd Natalie yn dosbarthu'r offeryn hwn i'r Bwrdd pan fydd wedi'i ddatblygu'n llawn.

**CAM GWEITHREDU 5:** Dosbarthu'r offeryn asesu risg 121 i aelodau'r Bwrdd.

## 6. Diweddariad ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth

**6.1** Rhoddodd Katherine Thomas ac Andrew Jeffreys ddiweddariad i'r Bwrdd ar gyflawniadau diweddar yn ymwneud â chydraddoldeb a'r heriau presennol o ran sicrhau cydraddoldeb. Gwahoddwyd trafodaeth am ddulliau lefel uchel o wella cydraddoldeb ac amrywiaeth yn Llywodraeth Cymru.

**6.2** Eglurodd Katherine fod Llywodraeth Cymru wedi cyflawni llawer mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth ers Diweddariad Cydraddoldeb diwethaf y Bwrdd ond ei bod yn wynebu amrywiaeth o heriau hirsefydlog mewn perthynas â chynrychiolaeth, profiadau gwahaniaethol a chynnydd teg.

**6.3** Canolbwyntiodd y diweddariad a'r drafodaeth ar y pwyntiau canlynol:

- Cynnydd o ran defnydd y sefydliad o’r model cymdeithasol o anabledd,

- Cyflawniadau eraill yn ymwneud â chydraddoldeb yn ystod 2019-20,
- Effeithiau presennol ar gydraddoldeb mewn cyflogaeth a'r modd yr ymdrinnir â nhw yn sgil COVID-19,
- Data amrywiaeth presennol a'n huchelgais i weld newid go iawn yn y darlun presennol o dangynrychioliaeth,
- Datblygu Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd ar gyfer y cyfnod 2020-25, ein dulliau o sbarduno newid, gan gynnwys y mathau o dargedau y gellid eu defnyddio a sut y gallem geisio cyrraedd y targedau hynny.

**6.1** Croesawodd y Bwrdd y papurau a chytunwyd ei bod yn bwysig cael dull rhagweithiol iawn o wella canlyniadau ar gyfer y grwpiau hynny heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein sefydliad ar hyn o bryd.

## 7. Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol

**7.1** Cyflwynodd Clare Collett y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a dywedodd ei bod wedi cael ei llywio gan drafodaethau yn y Pwyllgor Cyllid. Dywedodd ei bod wedi cael ei diweddaru'n benodol i adlewyrchu unrhyw newidiadau o ran risg yn sgil COVID-19. Cyflwynwyd y Gofrestr Risgiau i'r Pwyllgor Gweithredol hefyd ar 11 Mehefin.

**7.2** Tynnodd Clare sylw at y risgiau allweddol ac unrhyw newidiadau yn y gofrestr. Cwestiynodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol y dull sgorio ar gyfer risg rhif 5 yn ymwneud â chapasiti'r gweithlu. Cytunodd Clare y byddai'r camau lliniaru yn cael eu hystyried eto. Dywedodd hefyd fod y Pwyllgor Gweithredol wedi gofyn i'r holl Berchnogion Risg adolygu'r camau lliniaru er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r dull sgorio.

### Camau sy'n codi yng nghyfarfod y Bwrdd

| CAM GWEITHREDU | Y SWYDDOG ARWEINIOL | Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF |
|---|---|---|
| **CAM GWEITHREDU 1:** Pawb i ystyried pa gymorth ychwanegol y gallai'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ei roi i'r sefydliad. | Pawb | Cwblhawyd |
| **CAM GWEITHREDU 2:** Dosbarthu'r strwythur llywodraethiant i aelodau'r Bwrdd. | Yr Ysgrifenyddiaeth | Cwblhawyd |

| | | |
|---|---|---|
| **CAM GWEITHREDU 3:** Cytunodd y Bwrdd ei bod yn bwysig cael darlun o holl gyflawniadau Llywodraeth Cymru yn yr Adolygiad Blynyddol o'r cyfrifon. | Gawain Evans | Cwblhawyd |
| **CAM GWEITHREDU 4:** Neilltuo rhagor o amser i drafod materion ariannol yn ystod cyfarfod nesaf y Bwrdd. | Yr Ysgrifenyddiaeth | Cwblhawyd |
| **CAM GWEITHREDU 5:** Dosbarthu'r offeryn asesu risg 121 i aelodau'r Bwrdd. | Natalie Pearson | Cwblhawyd |